| | |
|---|---|
| **Adrodd i'r** | **Pwyllgor Craffu Partneriaethau** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **6 Gorffennaf 2023** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | **Cyng Jason McLellan, Arweinydd / Tony Ward, Cyfarwyddwr Corfforaethol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Pennaeth Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Swyddog Arweiniol Economaidd a Datblygu Busnes** |
| **Teitl** | **Ail bleidlais Ardal Gwella Busnes y Rhyl** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Cynnig ail dymor ar gyfer Ardal Gwella Busnes (AGB) y Rhyl

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Archwilio cynigion am ail dymor arfaethedig 5 mlynedd o hyd ar gyfer Ardal Gwella Busnes y Rhyl.

2.2. Hysbysu Aelodau am y camau sydd eu hangen i gefnogi pleidlais i bennu a ddylai cael ail dymor ar gyfer Ardal Gwella Busnes y Rhyl.

2.3. Galluogi Craffu i godi unrhyw gwestiynau am Ardal Gwella Busnes y Rhyl neu broses bleidleisio.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod Craffu'n ystyried cynnwys Cynllun Busnes drafft Ardal Gwella Busnes y Rhyl (ynghlwm fel Atodiad 1).

3.2. Bod Craffu'n ystyried ac yn trafod argymhelliad y Swyddog nad oes sail i ymarfer y pŵer i wrthod, oherwydd nad oes newid(iadau) sylweddol i'r cynigion presennol, a fyddai'n cael effaith ar y ffactorau a fyddai'n dylanwadu ar ddefnydd y pŵer i

wrthod fel y nodwyd yn Adran 51 (2) Deddfwriaeth Ardaloedd Gwella Busnes Cymru (2005) (ynghlwm fel Atodiad 2).

3.3. Bod Craffu’n cefnogi’r camau a’r terfynau amser sy’n ymwneud â’r broses ail bleidlais, gan gynnwys y camau i gymryd hyn drwy broses ddemocrataidd Cyngor Sir Ddinbych.

# 4. Manylion yr adroddiad

## Cefndir Ardaloedd Gwella Busnes

4.1. Mae Ardal Gwella Busnes yn rhoi pŵer i fusnesau lleol ddod at ei gilydd, penderfynu pa welliannau yr hoffent eu gwneud mewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig a chodi arian i gyflawni’r gwelliannau hynny.

4.2. Ni chyfyngir ar y prosiectau na'r gwasanaethau y gellir eu darparu trwy AGB. Yr unig orfodaeth yw bod yn rhaid iddo fod yn rhywbeth sy'n ychwanegu at wasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol.

4.3. Mae’r broses o ddatblygu AGB yn cynnwys ymgynghori’n ddwys â busnesau ac o hynny fe gynhyrchir Cynnig ar gyfer AGB ac fe gynhelir pleidlais 28 diwrnod trwy’r post lle bydd busnesau’n pleidleisio ‘o blaid' neu ‘yn erbyn’ y cynnig. Y Cynllun Busnes ar gyfer yr AGB yw'r ddogfen allweddol y mae busnesau yn pleidleisio arni. Mae’n gosod allan sut y bydd yr AGB yn gweithio (incwm arfaethedig, gwariant, ardal AGB a mesurau perfformiad) a sut y caiff yr Ardoll AGB ei wario yn y dref.

4.4. Cyn y gellir sefydlu’r AGB, rhaid i ddau amod gael eu cyflawni; yn gyntaf, rhaid i fwyafrif y pleidleiswyr bleidleisio 'o blaid' ac yn ail mae'n rhaid i'r nifer sy'n pleidleisio 'o blaid' gynrychioli mwy na 50% o gyfanswm gwerth trethiannol yr holl bleidleisiau a fwriwyd. Os cyflawnir y ddau fwyafrif gellir sefydlu’r AGB a bydd pob busnes o fewn y ffin ddiffiniedig yn atebol am dalu'r ardoll p’un a wnaethant bleidleisio "o blaid" neu “yn erbyn” yn y bleidlais. Os caiff AGB ei sefydlu, bydd yn weithredol am uchafswm o bum mlynedd. Os yw’r AGB yn dymuno parhau ar ôl hynny, bydd yn rhaid llunio cynnig newydd a chynnal pleidlais arall.

## AGB Y Rhyl

4.5. Sefydlwyd AGB y Rhyl ym mis Tachwedd 2018, yn dilyn pleidlais lwyddiannus gyda mandad i weithredu am uchafswm o 5 mlynedd. Ar 25 Medi, 2018 penderfynodd y Cabinet i gytuno i gefnogi sefydlu'r AGB trwy bleidleisio 'o blaid' ym mhleidlais yr AGB mewn perthynas â phob un eiddo ardrethadwy cymwys sydd gan y Cyngor yn yr AGB. Mae'r ddolen i'r cyfarfod/dogfennau yma: http://mgintranet/ieListDocuments.aspx?CId=281&MId=5577&Ver=4&LLL=0

4.6. Mae AGB y Rhyl yn dynesu at ddiwedd y tymor 5 mlynedd cyntaf. Er mwyn parhau i weithredu, mae angen set newydd o gynigion er mwyn ei roi i bleidlais. Mae Bwrdd AGB y Rhyl felly'n ymgymryd â'r broses angenrheidiol ar gyfer ail bleidleisio talwyr yr ardoll am ail dymor arfaethedig a chael Partneriaeth Cefnogi Lle wedi'i benodi, ymgynghorwyr sy'n arbenigo yn y prosesau pleidlais AGB, i gefnogi'r broses.

4.7. Mae AGB y Rhyl wedi llunio Cynllun Busnes drafft, ac maent yn y broses o gynnal ymgynghoriad gyda busnesau ar hyn (Atodiad 1).

4.8. Ar gyfer yr ail dymor, mae AGB y Rhyl yn cynnig ac ardoll 2% ar bob hereditament (ac eithrio cyfleusterau gofal iechyd) gyda Gwerth Trethiannol o dros £6,000, o fewn yr AGB. Mae'r AGB yn cynnwys hereditament c330. Gall busnesau sy'n cael eu heithrio ddewis gwneud cyfraniad gwirfoddol sy'n rhoi hawl iddynt gael mynediad at fuddion yr holl brosiectau a gwasanaethau a amlinellir yn y Cynllun Busnes. Yn seiliedig ar yr ardoll arfaethedig, y refeniw a amcangyfrifir ar gyfer AGB y Rhyl yw £167,500 yn flynyddol, sef £837,500 dros 5 mlynedd.

4.9. Cynigir mai dyddiad pleidlais yr AGB (diwrnod olaf y bleidlais) fydd 30 Tachwedd, 2023. Cyn y bleidlais bydd Cynllun Busnes terfynol yn cael ei anfon at bob pleidleisiwr cymwys yn ardal yr AGB yn ogystal â'r Awdurdod Lleol.

4.10. Os bydd mwyafrif y pleidleisiau 'o blaid', bwriedir cynnal yr AGB am ail dymor o 5 mlynedd. Bydd Cwmni'r AGB yn gyfrifol ar gyfer darpariaeth gwasanaethau'r AGB drwy gydol y cyfnod.

## Rôl CSDd

4.11. Dylai'r awdurdod lleol fodloni ei hun nad oes sail ar gyfer Gwrthod y cynnig ar gyfer AGB. Mae'r fframwaith gyfreithiol ar gyfer AGB, *Deddfwriaeth Ardaloedd Gwella Busnes Cymru (2005),* yn cynnwys darpariaeth i awdurdodau lleol wrthod cynigion AGB pan maent yn - (a) gwrthdaro i unrhyw raddau materol ag unrhyw bolisi corfforaethol y Cyngor, neu (b) gosod baich ariannol sylweddol sy'n anghyfartal ar unrhyw unigolyn neu ddosbarth o unigolion (Atodiad 2). Mae'n synhwyrol gwneud hyn cyn caniatáu i'r bleidlais gael ei chynnal, er mwyn lleihau'r risg o orfod gwrthod y cynigion yn dilyn pleidlais.

4.12. Ar ôl adolygu Cynigion AGB, argymhelliad y swyddog yw nad yw'r naill ddarpariaeth na'r llall yn gymwys yn achos cynigion ail bleidlais AGB y Rhyl.

4.13. Er bod AGB y Rhyl yn gwbl annibynnol oddi wrth y Cyngor, rydym yn fudd-ddeiliad allweddol gyda swyddogaeth statudol yn nhermau cynnal y bleidlais a chasglu, a gorfodi ardoll, ond hefyd, gan ein bod yn dalwr ardoll sylweddol yn yr AGB gyda nifer o bleidleisiau cyfatebol drwy gydol y broses.

4.14. Mewn unrhyw bleidlais i sefydlu (neu barhau ag) AGB, mae gan bob sefydliad gydag eiddo ardrethol cymwys yn yr AGB bleidlais. Bydd CSDd felly'n gymwys ar gyfer 20 pleidlais yn yr ail bleidlais i bennu ar barhau gydag AGB y Rhyl am ail dymor 5 mlynedd o hyd, a bydd Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn gymwys ar gyfer 3 pleidlais ychwanegol.

4.15. Bydd y broses ddemocrataidd ofynnol yn debyg i'r hynny a ddilynwyd yn 2018, e.e. ymgysylltiad cynnal gyda Grwpiau Ardal Aelodau'r Rhyl, a chais i fynd i Graffu, ac yn y pendraw, adroddiad i'r Cabinet ar gyfer awdurdodiad i gynnal pleidlais a phenderfynu sut fydd CSDd yn pleidleisio.

# 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae gwaith AGB yn cefnogi nod Cynllun Corfforaethol y Cyngor dan thema "Sir Ddinbych Ffyniannus", i "weithio ar y cyd gyda chymunedau a phartneriaid i ddarparu prosiectau a mentrau a fydd yn symbylu twf economaidd" drwy ddod â budd-ddeiliaid ynghyd a datblygu partneriaeth hyfyw yn ariannol i gefnogi

gwelliannau yng nghanol y dref a fydd yn fuddiol i'r sawl sy'n byw, gweithio ac ymweld â'r ardal.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd gofyn i Wasanaethau Democrataidd y Cyngor reoli'r broses bleidleisio ffurfiol bydd y bleidlais yn cael ei chynnal trwy'r post ar gyfer pob busnes yn ardal yr AGB sy'n atebol i dalu Ardoll yr AGB. Caiff ei chynnal gan Wasanaethau Civical Electoral ar ran y Swyddog Canlyniadau. Mae'r Ddeddfwriaeth yn nodi amod bod angen i CSDd dalu am gostau'r Bleidlais.

6.2. O dan y ddeddfwriaeth AGB mae gofyn i'r Cyngor gasglu'r ardoll ar ran y Cwmni AGB. Telir y costau hyn gan yr AGB. Bydd yr AGB a'r awdurdod lleol yn arwyddo Cytundeb Gweithredu i lywodraethu sut y cesglir arian ardoll yr AGB a sut y caiff ei weinyddu a'i drosglwyddo i Gwmni'r AGB.

6.3. Os bydd mwyafrif y pleidleisiau "o blaid" yn y bleidlais o ran parhau'r AGB yn y Rhyl, bydd y Cyngor yn atebol am dalu cyfraniad Ardoll yr AGB ar bob un o'i eiddo. Yn seiliedig ar yr ardoll arfaethedig, byddai cost yr ardoll ar gyfer CSDd yn cael ei amcangyfrif i fod yn £9,341 y flwyddyn, gyda Hamdden Sir Ddinbych yn gyfrifol am £10,440 pellach y flwyddyn.

6.4. Fel rhan o broses yr AGB mae gofyn i'r Cyngor gwblhau datganiadau gwasanaeth sylfaenol sy'n gosod allan lefelau presennol darpariaethau gwasanaeth ym mhob ardal AGB boed yn ddarpariaeth statudol neu anstatudol. Bydd gofyn i wasanaethau CSDd (Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn bennaf, a Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaeth Cefn Gwlad, adolygu a diweddaru eu datganiadau gwasanaethau sylfaenol a gyflwynwyd fel rhan o broses wreiddiol yr AGB.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Amherthnasol.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Yn dilyn yr adroddiad hwn i’r Pwyllgor Craffu, mae’r cynnig am ail dymor ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer Grŵp Ardal Aelodau’r Rhyl ar 24 Gorffennaf, a’r Cabinet ar 19 Medi.

8.2. Mae’r AGB yn gyfrifol am ymgynghori gyda busnesau a budd-ddeiliaid sy’n cael eu heffeithio gan Gynigion yr AGB, ac rydym wedi cael ein cynghori bod y broses yn mynd rhagddi.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Yn amlwg, mae’r penderfyniad i osod, parhau a rheoli’r AGB yn gyfrifoldeb ar y busnesau hynny sydd wedi’u cynnwys yn yr AGB. Rôl Cyllid yw darparu gwasanaeth ar gyfer casglu ac adfer yr ardoll ar ran yr AGB. Mae’r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu gyda chost i’r AGB ac o ganlyniad nid oes effaith ariannol ar y Cyngor.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

10.1. Efallai na fydd ail bleidlais yr AGB yn llwyddiannus, a gall busnesau bleidleisio yn erbyn cynigion yr AGB. I leihau’r risg, mae’r Cwmni AGB yn datblygu cynllun busnes cadarn, sydd wedi cael ei ymgynghori gyda busnesau, ac sy’n dangos gwerth am arian i bob un arfaethedig sy’n talu’r ardoll.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor